

Polisi Trwyddedu Cerbydau Hurio Preifat a Cherbydau Hacni

Meini Prawf Addasrwydd ar
gyfer Gyrwyr a Gweithredwyr

2019

Cynnwys

1.	Cyflwyniad	4
2.	Polisi cyffredinol	6
3.	Apeliadau	7
4.	Pwerau	7
5.	Opsiynau wrth wneud penderfyniad ar gais/trwydded	8
6.	Ystyried hanes troseddol a ddatgelwyd	9
7.	Trais	10
8.	Troseddau rhyw ac anweddustra	12
9.	Anonestrwydd	13
10.	Gyrru o dan Ddylanwad Alcohol neu Gyffuriau	14
11.	Troseddau sy'n Gysylltiedig â Chyffuriau	14
12.	Meddwdod (Nid mewn Cerbyd Modur)	15
13.	Troseddau gyrru sy'n cynnwys colli bywyd	15
14.	Euogfarnau Moduro	16
15.	Troseddau Traffig Mawr	16
16.	Mân Droseddau Traffig	17
17.	Troseddau Yswiriant	17
18.	Gwaharddiad rhag Gyrru	17

19.	Gwybodaeth nad yw'n ymwneud ag euogfarnau	18
20.	Aildroseddu	19
21.	Torri Deddfwriaeth, Is-ddeddf neu Amod Trwydded	19
22.	Ymgeiswyr â chyfnodau'n byw y tu allan i'r DU	19
23.	Trwyddedau a gyhoeddir gan Awdurdodau Eraill	20
24.	Crynodeb	20
25.	Atodiad A – Troseddau Moduro a phwyntiau cosb	21

1. CYFLWYNIAD

1.1 Diben y polisi hwn yw darparu arweiniad ar y meini prawf sy'n cael eu hystyried gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wrth benderfynu a yw ymgeisydd neu ddeiliad trwydded presennol yn unigolyn addas a phriodol i gael trwydded cerbyd hacni a/neu drwydded gyrrwr / gweithredwr cerbyd hurio preifat ai peidio.

1.2 Nod y polisi hwn yw diogelu diogelwch y cyhoedd. Mae'r Awdurdod Trwyddedu eisiau sicrhau:

- Bod yr unigolyn hwnnw yn unigolyn addas a phriodol;
- Nad yw'r unigolyn hwnnw yn cyflwyno bygythiad i'r cyhoedd;
- Bod y cyhoedd yn cael eu diogelu rhag unigolion anonest;
- Diogelu plant a phobl ifanc;
- Diogelu pobl agored i niwed;
- Bod gan y cyhoedd hyder wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig.

1.3 Nid yw'r term "Unigolyn Addas a Phriodol" at ddibenion trwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat wedi'i ddiffinio'n gyfreithlon. Fodd bynnag, wrth benderfynu a yw unigolyn yn addas a phriodol i gynnal trwydded, mae'r rhai sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ar drwyddedau/ceisiadau yn gofyn iddynt eu hunain i bob pwrpas:

"Fyddech chi'n caniatáu i'ch mab neu ferch, priod neu bartner, mam neu dad, wŷr neu wyres neu unrhyw unigolyn arall sy'n annwyl i chi, fynd i mewn i gerbyd gyda'r unigolyn hwn ar eu pen eu hunain?"

Os mai "byddwn" yn ddiamod yw'r ateb i'r cwestiwn hwn yna gellir ystyried bod yr unigolyn yn addas a phriodol. Os oes unrhyw amheuaon ym meddyliau'r rhai sy'n gwneud y penderfyniad, yna dylid rhoi ystyriaeth bellach o ran a ddylid rhoi trwydded i'r unigolyn hwnnw ai peidio.

Er mwyn asesu addasrwydd ymgeisydd (ac er mwyn hysbysu'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau wrth ateb y cwestiwn uchod), bydd y Cyngor yn cynnal y gwiriadau perthnasol ac angenrheidiol y mae'n credu sy'n briodol er mwyn sicrhau nad yw trwyddedau'n cael eu cyhoeddi i, nac yn cael eu defnyddio gan, bobl anaddas. Wrth asesu addasrwydd ymgeisydd neu ddeiliad trwydded, bydd y cyngor yn ystyried y ffactorau canlynol:

- Troseddoldeb
- Cyfnod cael trwydded yrru
- Nifer y pwyntiau cosb arnodedig ar drwydded yrru
- Cymhwyster i weithio yn y DU
- Addasrwydd meddygol

- Safon gyrru/gallu gyrru
- Ymddygiad yr ymgeisydd wrth wneud y cais (e.e. a ydynt wedi ymddwyn gydag integred yn ystod y broses o wneud cais).
- Hanes trwyddedau blaenorol deiliaid trwyddedau presennol/blaenorol.

Hefyd, bydd y Cyngor yn ystyried ffynonellau gwybodaeth pellach gan gynnwys yr Heddlu (gan gynnwys hysbysiadau cipio), Byrddau Diogelu Plant ac Oedolion, awdurdodau trwyddedu ac asiantaethau statudol eraill.

1.4 Nod y polisi hwn yw darparu canllaw i unrhyw unigolyn sydd â diddordeb mewn trwyddedu cerbydau hurio cyhoeddus a phreifat. Yn benodol, ond nid yn unig, y canlynol:

- Ymgeiswyr trwyddedau gyrwyr / gweithredwyr
- Gyrwyr /gweithredwyr trwyddedig presennol y mae eu trwyddedau'n cael eu hadolygu
- Swyddogion Trwyddedu a'r Heddlu
- Aelodau'r Pwyllgor/Panel Trwyddedu Amgylcheddol (neu gorff perthnasol arall sy'n gwneud penderfyniadau)
- Ynadon a Barnwyr sy'n gwrando ar apeliadau yn erbyn penderfyniadau awdurdod lleol

1.5 Pan fydd gan swyddogion trwyddedu bwerau dirprwyedig o ran trwyddedau cerbydau hurio preifat/hacni, byddant yn defnyddio'r canllawiau hyn wrth wneud penderfyniad i gymeradwyo trwydded. Ym mhob achos arall, cyfeirir pob cais am drwyddedau i'r Pwyllgor/Panel Trwyddedu Amgylcheddol (neu gorff arall perthnasol sy'n gwneud penderfyniadau). Er y bydd swyddogion a'r pwyllgor/panel yn rhoi ystyriaeth i'r canllawiau yn y polisi, **bydd pob polisi yn cael ei ystyried ar ei rinweddau unigol ei hun a**, phan fydd amgylchiadau'n mynnu, gall y pwyllgor/swyddog wyro oddi wrth y canllawiau.

1.6 Pan fydd ymgeiswyr yn methu â datgelu unrhyw euogfarnau blaenorol; rhybuddion; hysbysiadau cosb, gorchmynion neu geryddon ar eu ffurflen gais, gan gynnwys unrhyw achosion llys i'w cynnal neu unrhyw faterion eraill gellir eu cyfeirio at y Pwyllgor Trwyddedu wneud penderfyniad arnynt.

2. POLISI CYFFREDINOL

- 2.1 Wrth ystyried y canllaw hwn, bydd y Cyngor yn ymwybodol bod angen ystyried pob achos ar ei rinweddau unigol ei hun a, phan fydd amgylchiadau'n mynnu, gall y pwyllgor wyro oddi wrth y canllawiau hyn.
- 2.2 Nid oes angen gwahardd unigolyn ag euogfarn am drosedd ddifrifol yn awtomatig o reidrwydd rhag cael trwydded, ond fel arfer disgwylir i'r ymgeisydd:
- Parhau'n rhydd o euogfarn am gyfnod priodol (fel y nodir isod); a
 - Dangos tystiolaeth ddigonol eu bod yn unigolyn addas a phriodol i gynnal trwydded (cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw darparu tystiolaeth o'r fath).
- Efallai na fydd dim ond parhau'n rhydd o euogfarn yn cael ei ystyried yn dystiolaeth ddigonol ar y cyfan bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol i gynnal trwydded.
- 2.3 At ddibenion y Polisi hwn, gallai "materion eraill i'w hystyried" gynnwys, ond nid ydynt wedi'u cyfyngu i'r canlynol:
- Euogfarnau troseddol / moduro;
 - Llys Milwrol;
 - Rhybuddion;
 - Hysbysiadau cosb benodedig neu hysbysiadau cosb eraill;
 - Gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol neu orchmynion tebyg eraill;
 - Torri amodau trwydded;
 - Rhybuddion neu Geryddon Ffurfiol;
 - Cyhuddiadau neu faterion sy'n aros am dreial;
 - Priodoldeb.
- 2.4 Pan fydd gan ymgeisydd euogfarn(au) neu fater(ion) eraill i'w hystyried am drosedd droseddol, ni all y cyngor adolygu rhinweddau'r euogfarn neu fater arall.
- 2.5 Pan fydd gan ymgeisydd / deiliad trwydded euogfarn neu fater arall i'w ystyried ar gyfer trosedd o gynorthwyo, annog, ceisio, cynllwynio, cynghori, caffael, achosi, caniatáu neu ysgogi unrhyw un o'r euogfarnau / materion troseddol neu fodurol sy'n cael eu nodi yn y canllaw hwn, ystyrir eu bod yn berthnasol ar gyfer y mater sylweddol.
- 2.6 Y safonau a'r meini prawf a nodir yn y paragraffau isod yw'r rhai a fyddai fel arfer yn berthnasol i geisiadau a thrwyddedau. Gall y Cyngor wyro oddi wrth y meini prawf hyn; fodd bynnag, dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylai wneud hynny.

3. APELIADAU

- 3.1 Mae gan unrhyw ymgeisydd y gwrthodwyd trwydded gyrrwr / gweithredwr iddynt, neu yrrwr / gweithredwr trwyddedig y mae eu trwydded wedi'i hatal neu ei dirymu hawl i apelio i'r Llys Ynadon o fewn 21 diwrnod o dderbyn yr hysbysiad

4. PWERAU

- 4.1 Mae'r pwerau i roi trwyddedau gyrrwr / gweithredwyr wedi'u cynnwys yn Adran 51, Adran 55 ac Adran 59 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 (y Ddeddf).
- 4.2 Mae'r pwerau i atal, dirymu neu wrthod adnewyddu trwydded gyrru wedi'u cynnwys yn Adran 61 y Ddeddf, pan fydd yr ymgeisydd/deiliad y drwydded yn euog o drosedd a oedd yn cynnwys anonestrwydd, anweddustia, trais; methiant i gydymffurfio â darpariaethau Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847; methiant i gydymffurfio â darpariaethau Rhan II Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976; neu unrhyw achos rhesymol arall.
- 4.3 Mae Adran 61 (2B) yn caniatáu i'r Awdurdod Trwyddedu, os yw'n ymddangos er budd diogelwch y cyhoedd, i atal neu ddirymu trwydded gyrrwr ar unwaith. Cyhoeddir Hysbysiad Penderfyniad sy'n esbonio pam y gwnaed y penderfyniad hwn i'r gyrrwr a bydd yn weithredol pan roddir yr hysbysiad i'r gyrrwr. Gall y gyrrwr apelio'r penderfyniad hwn ond ni all yrru yn ystod cyfnod yr apêl.
- 4.4 Mae Adran 62 y Ddeddf yn caniatáu i'r Awdurdod Trwyddedu atal, dirymu neu wrthod adnewyddu trwydded gweithredwr os bydd yr ymgeisydd/deiliad y drwydded yn euog o drosedd o dan, neu ddiffyg cydymffurfiaeth â, Rhan II y Ddeddf; ar sail unrhyw ymddygiad ar ran y gweithredwr sydd, ym marn y Cyngor, yn eu gwneud yn anaddas, neu yn sgîl unrhyw newid perthnasol ers rhoi'r drwydded i unrhyw un o amgylchiadau'r gweithredwr ar sail y rhoddwyd y drwydded neu unrhyw achos rhesymol arall.
- 4.5 Mae Gorchymyn Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002, yn caniatáu i'r Awdurdod Trwyddedu ystyried pob euogfarn a gofnodwyd yn erbyn ymgeisydd neu ddeiliad trwydded gyrrwr cerbyd hurio preifat neu gerbyd hacni, p'un a ydynt wedi'u disbyddu ai peidio. Felly, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried pob euogfarn berthnasol, yn arbennig pan fydd hanes hir o droseddu neu batrwm diweddar o aildroseddu.

4.6 Rhybuddion Gwarchodedig ac Euogfarnau Gwarchodedig

4.7 Mae Gorchymyn Eithriadau Deddf Adsefydlu Troseddwyr (1974) 2013 bellach yn dileu "euogfarnau gwarchodedig" a "rhybuddion gwarchodedig" o'r eithriadau.

4.8 Mae "Troseddau Rhestredig" bob amser yn cael eu datgelu ac maent yn cynnwys troseddau mwy difrifol, troseddau rhywiol a'r rhai â goblygiadau diogelu ac yn y blaen. Mae troseddau rhestredig wedi'u nodi yn adran 5 Gorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975 (Diwygio) (Cymru a Lloegr) 2013.

4.9 Mae euogfarn yn **"euogfarn warchodedig"** os:

- Nad yw'n berthnasol i drosedd restredig.
- Ni roddwyd dedfryd o garchar.
- Nid oes gan yr unigolyn unrhyw euogfarnau eraill. (Pan fydd gan yr unigolyn fwy nac un euogfarn, bydd pob euogfarn wedi'u cynnwys ar y dystysgrif.)
- Cafodd ei derbyn gan unigolyn o dan 18 oed ar adeg yr euogfarn a bod **pum mlynedd a hanner neu fwy** wedi mynd heibio.
- Cafodd ei derbyn gan unigolyn 18 oed neu'n hŷn ar adeg yr euogfarn ac mae **11 mlynedd neu fwy** wedi mynd heibio.

4.10 Mae rhybudd yn **"rybudd gwarchodedig"** os:

- Nad yw'n berthnasol i drosedd restredig.
- Fe'i rhoddwyd i unigolyn o dan 18 oed ar adeg y rhybudd ac mae **dwy flynedd neu fwy** wedi mynd heibio.
- Fe'i rhoddwyd i unigolyn 18 oed neu'n hŷn ar adeg y rhybudd ac mae **chwe blynedd neu fwy** wedi mynd heibio.

5. OPSIYNAU WRTH WNEUD PENDERFYNIAD AR GAIS/TRWYDDED

5.1 Wrth benderfynu ar gais neu adolygu trwydded bresennol, mae gan y Cyngor yr opsiynau canlynol:

- Cymeradwyo'r cais neu beidio cymryd unrhyw gamau pellach
- Gwrthod y cais/dirymu'r drwydded/atal y drwydded
- Cyflwyno rhybudd

6. YSTYRIED HANES TROSEDDOL A DDATGELWYD

6.1 O dan ddarpariaethau Adrannau 51, 55 a 59 y Ddeddf, mae'n ofynnol i'r Awdurdod Trwyddedu sicrhau bod ymgeisydd sydd eisiau adnewyddu trwydded gyrrwr / gweithredwr yn unigolyn 'addas a phriodol' i gael trwydded o'r fath. Fodd bynnag, os oes gan ymgeisydd / deiliad trwydded unrhyw faterion i'w hystyried, gall yr Awdurdod Trwyddedu ystyried:

- Pa mor berthnasol yw'r drosedd/troseddau i'r drwydded y gwneir cais amdani;
- Pa mor ddifrifol oedd y drosedd/troseddau;
- Pryd y cyflawnwyd y drosedd/troseddau;
- Dyddiad yr euogfarn ac oedran yr ymgeisydd ar adeg yr euogfarn;
- Y ddedfryd a roddwyd gan y llys;
- A ydynt yn ffurfio rhan o batrwm o droseddu;
- Unrhyw ffactorau eraill a allai fod yn berthnasol, er enghraifft:
 - Ymddygiad blaenorol deiliad trwydded presennol neu flaenorol;
 - A yw'r ymgeisydd wedi camarwain y cyngor yn fwriadol neu wedi dweud celwydd fel rhan o'r broses gwneud cais;
 - Gwybodaeth a ddarparwyd gan asiantaethau eraill/adrannau eraill y cyngor

6.2 Pan fydd ymgeiswyr yn methu â datgelu unrhyw euogfarnau; rhybuddion; hysbysiad cosb, gorchmynion neu geryddon blaenorol ar eu ffurflen gais, gan gynnwys unrhyw achosion llys i'w cynnal neu faterion eraill y gellir eu cyfeirio at y Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol i wneud penderfyniad arnynt.

6.3 Mae'n rhaid i ddeiliaid presennol trwyddedau gyrru hysbysu'r cyngor yn ysgrifenedig o fewn saith diwrnod gwaith o dderbyn cymeradwyaeth trwydded yrru, hysbysiad cosb benodedig, rhybudd, cerydd, rhybudd yr heddlu, euogfarn droseddol neu achos troseddol arall (gan gynnwys eu rhyddfarn fel rhan o achos troseddol). Byddai methiant i wneud hynny yn codi cwestiynau difrifol i'r Cyngor o ran onestrwydd deiliad y drwydded a bydd hyn yn cael ei ystyried fel rhan o unrhyw gais adnewyddu.

6.4 Mae'r Cyngor yn cynnal datgeliadau manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) o unrhyw ymgeisydd sy'n gwneud cais am drwydded yrru. Bydd angen i ymgeiswyr sy'n gwneud cais i gael neu adnewyddu trwydded yrru drefnu datgeliad manylach, a thalu am hynny eu hunain.

- 6.5 Mae gan y Cyngor hawl hefyd i ddefnyddio cofnodion a gwybodaeth arall a allai fod ar gael iddynt wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau neu hawl i barhau i gynnal trwydded. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth sydd gan y Cyngor neu awdurdodau trwyddedu eraill, a gwybodaeth sy'n cael ei datgelu gan yr heddlu o dan Gynllun Datgeliadau Cyfraith Gyffredin yr Heddlu neu drefniadau tebyg eraill. Ymhlith yr enghreifftiau o ffynonellau gwybodaeth o'r fath y gellir eu defnyddio mae gwybodaeth gofal cymdeithasol, taliadau budd-dal ac yn y blaen.
- 6.6 Mae'n drosedd i unrhyw berson, boed hynny'n fwriadol neu'n ddifeddwl, wneud datganiad ffug neu hepgor unrhyw ddeunydd, yn arbennig wrth roi gwybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer gwneud cais am drwydded (a57 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol 1976). Pan fydd ymgeisydd wedi gwneud datganiad ffug neu ddatganiad ffug ar eu cais i gael neu adnewyddu trwydded, bydd y drwydded fel arfer yn cael ei gwrthod.

7. TRAIS

- 7.1 Mae gyrwyr trwyddedig yn dod i gysylltiad agos gyda'r rheolaidd gyda'r cyhoedd. Cymerir safbwynt cadarn i'r rhai sydd ag euogfarn(au) neu fater(ion) eraill i'w hystyried sy'n cynnwys trais. Gwrthodir cais fel arfer neu bydd trwydded bresennol yn cael ei dirymu os oes gan yr ymgeisydd/deiliad y drwydded euogfarn am drosedd a oedd yn cynnwys colli bywyd.
- 7.2 Mewn achosion eraill, bydd unrhyw un sydd sy'n euog o drosedd sy'n gysylltiedig â thrais, yn annhebygol o gael eu trwyddedu nes y bydd o leiaf 3 blynedd wedi mynd heibio ers euogfarn(au) o'r fath. Fodd bynnag, o ystyried yr amrediad o droseddau sy'n cynnwys trais, mae'n rhaid rhoi ystyriaeth i natur y drosedd.
- 7.3 Oni fydd amgylchiadau eithriadol, gwrthodir cais fel arfer neu bydd trwydded bresennol yn cael ei dirymu pan fydd gan ymgeisydd / deiliad trwydded euogfarn am drosedd megis:
- Llofruddiaeth;
 - Dynladdiad;
 - Dynladdiad neu ddynladdiad beius wrth yrru;
 - Troseddau terfysgaeth;
 - Neu droseddau tebyg neu droseddau sy'n disodli'r uchod.
- 7.4 Gwrthodir cais fel arfer pan fydd gan yr ymgeisydd euogfarn(au) neu fater(ion) eraill i'w hystyried ar gyfer trosedd a restrir isod a bod yr euogfarn(au) neu fater(ion) i'w hystyried yn llai na 10 mlynedd cyn dyddiad y cais neu o leiaf 10 mlynedd o ddyddiad cwblhau dedfryd (pa un bynnag sydd hwyaf):

- Gwir niwed corfforol sydd wedi'i waethygu oherwydd hil / crefydd;
- Llosgi bwriadol;
- Ymosod ar yr Heddlu;
- Ymosodiad cyffredin sydd wedi'i waethygu oherwydd hil / crefydd;
- Difrod troseddol sydd wedi'i waethygu oherwydd hil / crefydd;
- Niwed corfforol difrifol gyda bwriad;
- Clwyfo maleisus neu niwed corfforol difrifol sydd wedi'i waethygu oherwydd hil;
- Meddu ar ddryll;
- Gwrthsefyll arestio;
- Terfysg;
- Lladrad;
- Anhrefn treisgar;
- Troseddau tebyg neu droseddau sy'n disodli'r uchod.

7.5 Gwrthodir cais fel arfer pan fydd gan yr ymgeisydd euogfarn(au) neu fater(ion) eraill i'w hystyried ar gyfer trosedd a restrir isod a bod yr euogfarn(au) neu fater(ion) i'w hystyried yn llai na 3 mlynedd cyn dyddiad y cais neu o leiaf 10 mlynedd o ddyddiad cwblhau dedfryd (pa un bynnag sydd hwyaf):

- Affrae;
- Ymosodiad sy'n achosi gwir niwed difrifol;
- Ymosodiad cyffredin;
- Difrod troseddol;
- Rhwystro;
- Meddu ar arf (neu arf ffug) neu unrhyw drosedd arall sy'n gysylltiedig â throsedd ar wahân i ddryll;
- Trosedd A5 Deddf Trefn Gyhoeddus 1986 (aflonyddwch, braw neu drallod);
- Trosedd A.4 Deddf Trefn Gyhoeddus 1986 (ofn cythrudd o drais);
- Trosedd A4A Deddf Trefn Gyhoeddus 1986 (aflonyddwch, braw neu drallod bwriadol);
- Troseddau tebyg neu droseddau sy'n disodli'r uchod

7.6 Gwrthodir cais fel arfer os bydd gan ymgeisydd fwy nac un euogfarn neu fater arall i'w hystyried yn y 10 mlynedd ddiwethaf am drais o natur dreisgar.

8. TROSEDDAU RHYW AC ANWEDDUSTRA

- 8.1 Oherwydd bod gyrwyr trwyddedig yn cludo teithwyr digwmni ac agored i niwed, cymerir safbwynt cadarn o ran y rhai sydd ag euogfarnau neu faterion eraill i'w hystyried ar gyfer troseddau rhyw. Gwrthodir cais fel arfer neu bydd trwydded bresennol yn cael ei hatal neu ei dirymu am euogfarnau neu faterion eraill i'w hystyried ar gyfer unrhyw drosedd sy'n cynnwys camymddwyn rhywiol. Ym mhob achos, cânt eu cyfeirio at y Pwyllgor Trwyddedu er mwyn gwneud penderfyniad arnynt.
- 8.2 Oni fydd amgylchiadau eithriadol, gwrthodir cais fel arfer neu bydd trwydded bresennol yn cael ei hatal neu ei dirymu pan fydd gan yr ymgeisydd / deiliad y drwydded euogfarn(au) neu fater(ion) eraill i'w hystyried ar gyfer trosedd megis:
- Ymosodiad drwy dreiddiad;
 - Ecsbloetio puteindra;
 - Ymosodiad anweddus;
 - Troseddau sy'n cynnwys plant neu oedolion agored i niwed;
 - Meddu ar ffotograffau anweddus, pornograffi plant ac yn y blaen;
 - Trais rhywiol;
 - Ymosodiad rhywiol;
 - Masnachu er mwyn ecsbloetio rhywiol neu fath arall o ecsbloetio;
 - Gwneud galwadau ffôn anweddus;
 - Magu Perthynas Amhriodol neu geisio dod yn gyfaill i blentyn ar y rhyngwrwyd neu drwy ddulliau eraill, gyda'r bwriad o'u cam-drin;
 - Dinoethiad anweddus;
 - Cymell puteindra (plagio pen ffordd);
 - Troseddau tebyg neu droseddau sy'n disodli'r uchod.
- 8.3 Yn ogystal â'r uchod, ni fydd yr Awdurdod Trwydded fel arfer yn caniatáu trwydded i unrhyw ymgeisydd sydd ar y Gofrestr Troseddwyr Rhyw neu unrhyw gofrestr debyg.
- 8.4 Gwrthodir cais fel arfer os bydd gan ymgeisydd fwy nac un euogfarn neu fater arall i'w ystyried ar gyfer trosedd rhyw.
- 8.5 Efallai y bydd y Cyngor yn dymuno ystyried amgylchiadau, pe byddent wedi digwydd ar adeg ystyried y cais, na fyddent yn drosedd.

9. ANONESTRWYDD

9.1 Disgwylir i ymgeisydd neu ddeiliad trwydded presennol fod yn unigolyn dibynadwy. Yn ystod eu dyletswyddau gwaith, bydd gyrwyr yn delio â thrafodion ariannol ac eiddo gwerthfawr y gellir bod wedi'u gadael yn eu cerbydau. Mae'n bosibl y bydd gyrwyr yn delio â chwsmeriaid sy'n agored i niwed neu sy'n feddw ac a allai ddrysu'n rhwydd. Ar ben hynny, mae'n gymharol hawdd i yrrwr anonest dwyllo'r cyhoedd drwy fynnu mwy na chost gyfreithiol y daith neu'r gost y cytunwyd arni, ac yn y blaen. Gall ymwelwyr o dramor fod yn ddryslyd ynglŷn â'n harian cyfred a gallent fod yn agored i gael eu twyllo gan yrrwr diegwyddor. Am yr holl resymau hyn, cymerir safbwynt cadarn o unrhyw euogfarn sy'n ymwneud ag anonestrwydd.

9.2 Gwrthodir cais fel arfer neu bydd trwydded bresennol yn cael ei hatal neu ei dirymu pan fydd gan yr ymgeisydd / deiliad y drwydded euogfarn(au) neu fater(ion) eraill i'w hystyried ar gyfer y troseddau a restrir isod a bod yr euogfarn neu'r mater arall i'w ystyried llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais neu o leiaf 3 blynedd ar ôl cwblhau dedfryd (pa un bynnag sydd hwyaf) :

- Twyll budd-daliadau;
- Bwrgleriaeth;
- Cynllwynio i dwyllo;
- Ffugio;
- Twyll;
- Trin neu dderbyn nwyddau wedi'u dwyn;
- Caffael arian neu eiddo drwy dwyll;
- Math arall o dwyll;
- Cymryd cerbyd heb ganiatâd;
- Lladrad;
- Codi gormod am y daith;
- Troseddau tebyg neu droseddau sy'n disodli'r uchod.

9.3 Cyfeirir ymgeiswyr neu ddeiliaid trwydded presennol, y canfyddir eu bod wedi camarwain y cyngor yn fwriadol, neu sydd wedi dweud celwydd fel rhan o'r broses gwneud cais/ adnewyddu at y Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol.

10. GYRRU O DAN DDYLANWAD ALCOHOL NEU GYFFURIAU

- 10.1 Mae yfed alcohol neu gymryd cyffuriau a gyrru yn cyflwyno risg amlwg i ddiogelwch y cyhoedd. Mae gyrwyr trwyddedig yn yrwyr galwedigaethol proffesiynol a chymerir safbwynt difrifol o euogfarnau am yrru, neu bod yn gyfrifol am gerbyd o dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau.
- 10.2 Dylai o leiaf 5 mlynedd, ar ôl adfer y drwydded yrru yn dilyn euogfarn gyrru alcohol/cyffuriau, fod wedi bod cyn yr ystyrir cais. Gellir trin euogfarn am "wrthod neu fethu â darparu sbesimen ar ôl derbyn cais i wneud hynny" yn yr un modd.
- 10.3 Mae mwy nac un euogfarn neu fater arall i'w ystyried ar gyfer **gyrru** o dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau neu fethu â darparu sbesimen yn codi amheuan arwyddocaol ynglŷn ag addasrwydd yr ymgeisydd i yrru'r cyhoedd. Mae'n annhebygol y caniateir iddynt gael trwydded.
- 10.4 Os oes tystiolaeth o gamddefnyddio alcohol/cyffuriau cyson, efallai y bydd angen archwiliad meddygol arbenigol (yn unol â safonau meddygol Grŵp 2 DVLA) ac adroddiad meddygol boddhaol cyn y bydd y cais yn cael ei ystyried. Os bydd ymgeisydd wedi derbyn triniaeth am fod yn gaeth i alcohol/cyffuriau byddai angen iddynt ddangos tystiolaeth nad ydynt wedi cymryd alcohol/cyffuriau am 5 mlynedd yn dilyn triniaeth ddadwenwyno.

11. TROSEDDAU SY'N GYSYLLTIEDIG Â CHYFFURIAU

- 11.1 Oherwydd natur cyswllt gyrrwr gyda'r cyhoedd, gwrthodir cais fel arfer neu bydd trwydded bresennol yn cael ei hatal neu ei dirymu pan fydd gan yr ymgeisydd/deiliad y drwydded euogfarn(au) neu fater(ion) i'w hystyried ar gyfer trosedd sy'n gysylltiedig â **chyflenwi, tyfu, mewnforio neu gynhyrchu cyffuriau** ac nad ydynt wedi bod yn rhydd o euogfarn am 10 mlynedd, neu o leiaf 10 mlynedd ar ôl cwblhau dedfryd (pa un bynnag sydd hwyaf).
- 11.2 Gwrthodir cais fel arfer neu bydd trwydded bresennol yn cael ei hatal neu ei dirymu pan fydd gan yr ymgeisydd/deiliad y drwydded euogfarn unigol neu fater arall unigol i'w ystyried ar gyfer trosedd sy'n gysylltiedig â **meddu ar gyffuriau** sy'n llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais, neu o leiaf 3 blynedd ar ôl cwblhau dedfryd (pa un bynnag sydd hwyaf).
- 11.3 Gwrthodir cais fel arfer neu bydd trwydded bresennol yn cael ei hatal neu ei dirymu pan fydd gan yr ymgeisydd **fwy** nac un euogfarn neu fater arall i'w ystyried ar gyfer troseddau sy'n gysylltiedig â **meddu** ar gyffuriau ac nad yw wedi bod yn rhydd o euogfarn neu fater arall i'w ystyried am o leiaf 5 mlynedd neu o leiaf 5 mlynedd ar ôl cwblhau dedfryd (pa un bynnag sydd hwyaf).

- 11.4 Os oes tystiolaeth o ddefnydd, camddefnydd neu ddibyniaeth barhaus gallai fod angen archwiliad meddygol arbenigol (yn unol â safonau meddygol Grŵp 2 DVLA). Os oedd yr ymgeisydd yn gaeth i gyffuriau, yna fel arfer bydd angen tystiolaeth i ddangos nad ydynt wedi bod yn ddibynol ar alcohol/cyffuriau am **5 mlynedd**.

12. MEDDWDOD (NID MEWN CERBYD MODUR)

- 12.1 Mae euogfarn unigol am feddwdod yn annhebygol o arwain at wrthod cais neu drwydded yn cael ei hatal neu ei dirymu, ar yr amod nad yw'n gysylltiedig â math arall o ymddygiad troseddol.
- 12.2 Gallai mwy nac un euogfarn am feddwdod awgrymu problem feddygol. Os oes tystiolaeth o ddefnydd, camddefnydd neu ddibyniaeth barhaus ar alcohol, gallai fod angen archwiliad meddygol arbenigol (yn unol â safonau meddygol Grŵp 2 DVLA). Os oedd yr ymgeisydd yn gaeth i alcohol yna fel arfer bydd angen tystiolaeth i ddangos nad ydynt wedi bod yn ddibynol ar alcohol am **5 mlynedd**. Gellir dirymu trwydded deiliad trwydded presennol yn amodol ar ganlyniad yr archwiliad meddygol. Bydd archwiliad meddygol sy'n cadarnhau dibyniaeth ar alcohol yn golygu na all deiliad y drwydded wneud cais am drwydded hyd nes y gallant ddarparu tystiolaeth nad ydynt wedi bod yn ddibynol ar alcohol am o leiaf 5 mlynedd.

13. TROSEDDAU GYRRU SY'N CYNWYS COLLI BYWYD

- 13.1 Cymerir safbwynt difrifol iawn o unrhyw ymgeisydd neu ddeiliad trwydded presennol sydd ag euogfarn neu unrhyw fater arall i'w ystyried am drosedd yrru sydd wedi arwain at golli bywyd.
- 13.2 Gwrthodir cais fel arfer neu bydd trwydded bresennol yn cael ei dirymu pan fydd gan yr ymgeisydd / deiliad y drwydded euogfarn(au) neu fater(ion) eraill i'w hystyried ar gyfer unrhyw droseddau a restrir isod ac nad ydynt wedi bod yn rhydd o euogfarn am 10 mlynedd (neu dylai bod o leiaf 5 mlynedd fod wedi mynd heibio ers cwblhau'r dedfryd, pa un bynnag sydd hwyaf):
- Achosi marwolaeth drwy yrru peryglus;
 - Achosi marwolaeth drwy yrru diofal o dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau;
 - Neu unrhyw droseddau tebyg
- 13.3 Gwrthodir cais fel arfer neu bydd trwydded bresennol yn cael ei dirymu pan fydd gan yr ymgeisydd / deiliad y drwydded euogfarn(au) neu fater(ion) eraill i'w hystyried am unrhyw un o'r troseddau a restrir isod ac nad ydynt wedi bod yn rhydd o euogfarn am 5 mlynedd (neu dylai bod o leiaf 3 blynedd fod wedi mynd heibio ers cwblhau'r ddedfryd, pa un bynnag sydd hwyaf) :

- Achosi marwolaeth drwy yrru peryglus;
- Achosi marwolaeth drwy yrru: gyrwyr heb drwydded, sydd wedi'u gwahardd neu sydd heb yswiriant;
- Neu unrhyw droseddau tebyg

14. EUOGFARNAU MODURO

14.1 Mae'r holl droseddau moduro a'r pwyntiau cosb wedi'u rhestru yn Atodiad A.

15. TROSEDDAU TRAFFIG MAWR

15.1 At ddibenion y Polisi hwn, mae'r troseddau moduro canlynol yn cael eu hystyried yn 'Droseddau Traffig Mawr':

AC10	Methu ag aros ar ôl damwain
AC20	Methu rhoi manylion neu roi gwybod am ddamwain o fewn 24 awr
AC30	Troseddau damweiniau heb eu diffinio
BA10	Gyrru tra byddwch wedi'ch gwahardd drwy orchymyn Llys
BA30	Ceisio gyrru tra byddwch wedi'ch gwahardd drwy orchymyn Llys
CU80	Defnyddio ffôn symudol wrth yrru cerbyd
DD40	Gyrru peryglus
DD90	Gyrru gwyllt
IN10	Defnyddio cerbyd heb ei yswirio yn erbyn risgiau trydydd parti
LC20	Gyrru'n groes fel arall i amodau'r drwydded
LC30	Gyrru ar ôl gwneud datganiad ffug ynglŷn ag addasrwydd wrth wneud cais
LC40	Gyrru cerbyd ar ôl methu â rhoi hysbysiad am anabledd
LC50	Gyrru ar ôl i drwydded gael ei dirymu neu ei gwrthod ar sail feddygol
MS50	Rasio modur ar briffordd
MS60	Troseddau nad ydynt wedi'u cwmpasu gan godau eraill
MS90	Methiant i roi gwybodaeth ar bwy oedd yn gyrru, ac yn y blaen
UT50	Cymryd cerbyd waethygedig

- 15.2 Gwrthodir cais fel arfer neu bydd trwydded bresennol yn cael ei hatal neu ei dirymu pan fydd gan yr ymgeisydd / deiliad y drwydded euogfarn neu fater arall i'w ystyried ar gyfer trosedd traffig fawr ac nad ydynt wedi bod yn rhydd o euogfarn neu fater arall i'w ystyried am **o leiaf 12 mis**. Pan fydd dedfryd yn cynnwys gwaharddiad yna bydd adran 15 yn berthnasol hefyd.
- 15.3 Fel arfer gwrthodir cais lle bydd mwy nac un Trosedd Traffig Fawr ac ni ddylid ystyried unrhyw gais pellach nes y bydd cyfnod o o leiaf 3 blynedd yn rhydd o euogfarnau o'r fath neu faterion eraill i'w hystyried. Pan fydd dedfryd yn cynnwys gwaharddiad yna bydd adran 15 yn berthnasol hefyd.
- 15.4 Os bydd unrhyw euogfarn neu fater arall i'w ystyried ar gyfer Trosedd Traffig Fawr yn arwain at waharddiad, dylai ymgeiswyr gyfeirio at yr adran "gwaharddiad" yn y canllawiau hyn.

16. MÂN DROSEDDAU TRAFFIG

- 16.1 Bydd Troseddau Traffig eraill nad ydynt wedi'u rhestru yn y polisi hwn yn cael eu trin fel "Mân Droseddau Traffig" at ddibenion y Polisi hwn. Mae mân drosedd yrru yn un sy'n arwain at rhwng 1 a 3 pwynt cosb.
- 16.2 Pan fydd gan ymgeisydd/deiliad trwydded un euogfarn neu fater arall i'w ystyried am fân drosedd gyrru, ni fydd hyn fel arfer yn arwain at wrthod neu atal / dirymu ac ni fydd fel arfer yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor.
- 16.3 Gallai mwy nac un mân euogfarn traffig neu fater arall i'w ystyried arwain at wrthod trwydded, yn arbennig pan fydd nifer o euogfarnau am yr un drosedd, er enghraifft goryrru, neu faterion eraill i'w hystyried. Gellir cyfeirio gyrrwr trwyddedig i'r Pwyllgor Trwyddedu pan fydd patrwm o aildroseddu dros gyfnod hwy o amser.

17. TROSEDDAU YSWIRIANT

- 17.1 Gellir cyfeirio gweithredwr y profir eu bod wedi helpu ac annog gyrru teithwyr ar gyfer hurio a gwobr heb yswiriant at y Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol. Gallai hyn arwain at atal neu ddirymu Trwydded y Gweithredwr.

18. GWAHARDDIAD RHAG GYRRU

- 18.1 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn trin cyfnod o waharddiad fel cyfnod y byddai gyrrwr wedi bod yn gymwys i wasanaethu, a gallai anwybyddu penderfyniad llys i hepgor neu leihau cyfnod gwaharddiad ar sail caledi eithriadol o dan A.35 Deddf Tramgwyddwyr Traffig 1988

neu am "resymau arbennig" o dan A.34 Deddf Tramgwyddwyr Traffig 1988 neu waharddiad wedi'i leihau ar ôl cwblhau cwrs adsefydlu gyrwyr.

- 18.2 Gwrthodir cais fel arfer neu bydd trwydded bresennol yn cael ei hatal neu ei dirymu pan fydd gan yr ymgeisydd / deiliad y drwydded euogfarn ddiweddar neu fater arall i'w ystyried sy'n arwain at gyfnod o waharddiad o lai na 56 diwrnod oni fydd cyfnod o **o leiaf 12 mis** wedi mynd heibio ers diwedd y cyfnod y gwaharddiad.
- 18.3 Gwrthodir cais fel arfer neu bydd trwydded bresennol yn cael ei hatal neu ei dirymu pan fydd gan yr ymgeisydd / deiliad y drwydded euogfarn ddiweddar neu fater arall i'w ystyried sy'n arwain at gyfnod o waharddiad o hyd at 12 mis oni fydd cyfnod o **o leiaf 18 mis** wedi mynd heibio ers diwedd y cyfnod y gwaharddiad
- 18.4 Gwrthodir cais fel arfer neu bydd trwydded bresennol yn cael ei hatal neu ei dirymu pan fydd gan yr ymgeisydd / deiliad y drwydded euogfarn ddiweddar neu fater arall i'w ystyried sy'n arwain at gyfnod o waharddiad o hyd at 12 mis oni fydd cyfnod o **o leiaf 3 blynedd** wedi mynd heibio ers diwedd y cyfnod y gwaharddiad.
- 18.5 Ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu fel arfer yn cymeradwyo cais am drwydded gyrrwr cerbyd hurio preifat neu gerbyd hacni i unigolyn sydd wedi'i wahardd rhag gyrru am gyfnod o 5 mlynedd neu fwy.

19. GWYBODAETH NAD YW'N YMWNEUD AG EUOGFARNAU

Ymgeiswyr Newydd

- 19.1 Os yw'r unigolyn yn destun arestiad, dyled heb ei thalu neu wŷs, gellir parhau i brosesu eu cais, ond bydd angen adolygu'r cais ar ddiwedd y gweithrediadau.
- 19.2 Os yw'r ddyled heb ei thalu neu'r wŷs yn ymwneud â throedd difrifol ac / neu mae hanes euogfarnau'r unigolyn yn dangos patrwm posibl o ymddygiad anghyfreithlon, yna er budd diogelwch y cyhoedd gellir gohirio'r cais nes y bydd gweithrediadau wedi dod i ben neu gellir gwrthod y cais.

Deiliaid Trwydded

- 19.3 I ddeiliad trwydded presennol, sy'n destun arestiad, dyled heb ei thalu neu wŷs, bydd yr Awdurdod yn ystyried yr holl dystiolaeth sydd ganddo a gallai hyn arwain at ddirymiad.
- 19.4 Wrth asesu'r camau i'w cymryd ar gyfer ymgeiswyr newydd a deiliaid trwydded presennol, mae'n rhaid i ddiogelwch y cyhoedd sy'n teithio fod yn hollbwysig.

- 19.5 Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn ymwybodol bod safon y prawf sy'n berthnasol mewn achosion troseddol a sifil yn wahanol. Y safon prawf wrth wneud penderfyniadau yw'r dull sifil, ar gydbwysedd tebygolrwydd.

20. AILDROSEDDU

- 20.1 Er ei bod yn bosibl bod gan ymgeisydd nifer o euogfarnau neu faterion eraill i'w hystyried sy'n cyflawni'r canllawiau uchod yn unigol, gwrthodir cais fel arfer pan fydd gan ymgeisydd gofnod o aildrosteddu sy'n dangos diffyg ystyriaeth i les eraill neu i eiddo, oni fydd cyfnod o **o leiaf 10 mlynedd** wedi mynd heibio ers yr euogfarn ddiweddaraf neu faterion eraill i'w hystyried.

21. TORRI DEDDFWRIAETH, IS-DDEDDF NEU AMOD TRWYDDED

- 21.1 Mae'n annhebygol y rhoddir trwydded i ymgeisydd sydd ag euogfarn neu faterion eraill i'w hystyried am dorri deddfwriaeth, is-ddeddf neu amod trwydded oni fydd cyfnod o **o leiaf 12 mis** wedi mynd heibio ers yr achos mwyaf diweddar o dorri un o'r uchod.
- 21.2 Mae deiliad trwydded presennol y canfyddir eu bod wedi torri deddfwriaeth, is-ddeddf neu amod trwydded, ar yr achlysur cyntaf, yn debygol o dderbyn rhybudd ysgrifenedig ar eu hymddygiad yn y dyfodol, ar yr amod nad oedd yr achos o dorri yn cyfaddawdu diogelwch teithwyr neu nad oedd y cyhoedd mewn perygl.
- 21.3 Pan ganfyddir bod gan ddeiliad trwydded presennol fwy nac un achos o dorri deddfwriaeth drwyddedu, is-ddeddf neu amod trwydded, neu un achos difrifol o dorri, gall y Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol atal neu ddirymu'r drwydded.
- 21.4 Mae'r uchod yn berthnasol p'un a yw unrhyw weithredoedd cyfreithiol i'w cynnal neu wedi'u cynnal.

22. YMGEISWYR Â CHYFNODAU'N BYW Y TU ALLAN I'R DU

- 22.1 Os bydd ymgeisydd wedi treulio chwe mis parhaus neu fwy dramor (ers iddynt fod yn 16 oed) bydd y cyngor yn disgwyl gweld tystiolaeth o wiriad o gofnodion troseddol gan y wlad/gwledydd yr ymwelwyd â hi/hwy yn ystod y cyfnod hwn. I ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd, bydd angen datgeliad tebyg i wiriad DBS y DU, ar gyfer y gwledydd hynny lle nad oes gwiriadau ar gael, bydd angen tystiolaeth o ymddygiad da ar y Cyngor, wedi'i llofnodi gan y llysgenhadaeth berthnasol.

- 22.2 Nid yw hyn yn effeithio ar y gofyniad i ddarparu datgeliad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae gwybodaeth bellach am y dulliau o gael prawf ar gael ar wefannau'r [DBS](#) a'r [CRB](#).

23. TRWYDDEDAU A GYHOEDDIR GAN AWDURDODAU ERAILL

- 23.1 Pan fydd cais am drwydded gyrrwr cerbyd hurio preifat/cerbyd hacni neu weithredwr cerbyd hurio preifat wedi'i gyfeirio at y Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol er mwyn gwneud penderfyniad arno o ran y polisi hwn, a bod gan yr ymgeisydd drwydded o'r fath a roddwyd gan awdurdod trwyddedu arall, dylai'r canllaw yn y polisi hwn gael blaenoriaeth dros unrhyw benderfyniad a wnaed gan awdurdod trwyddedu arall.

24. CRYNODEB

- 24.1 Er na fydd hanes troseddol ynddo'i hun o reidrwydd yn arwain yn awtomatig at wrthod cais ac ni ddylai euogfarn bresennol am drosedd ddifrifol wahardd ymgeisydd yn barhaol rhag cael ei drwyddedu, yn y rhan fwyaf o achosion, disgwylir i ymgeisydd fod yn rhydd o euogfarn am rhwng 3 a 10 mlynedd (mae'r cyfnod o amser yn dibynnu ar y drosedd a gyflawnwyd, fel y nodwyd uchod), cyn y bydd cais yn debygol o fod yn llwyddiannus.
- 24.2 Er ei bod yn bosibl i ymgeisydd fod wedi cael nifer o euogfarnau sydd, yn unigol, yn cyflawni'r canllawiau uchod, mae'n rhaid ystyried yr hanes troseddu cyffredinol wrth asesu addasrwydd ymgeisydd i gael ei drwyddedu. Mae cyfres o droseddau dros gyfnod o amser yn fwy tebygol o achosi pryder nac un mân euogfarn. Yn amlwg, gellir defnyddio rhywfaint o ddisgresiwn os bydd y drosedd a ddatgelwyd yn un unigol a bod amgylchiadau lliniarol, ond y brif ystyriaeth yw diogelwch y cyhoedd.

25. ATODIAD A – TROSEDDAU MODURO A PHWYNTIAU COSB

25.1 Mae'r canlynol yn ganllaw i'r nifer o bwyntiau cosb y gallai llys eu rhoi, nid yw'n adlewyrchu'r ffaith y gallai rhai troseddau arwain at waharddiad. Mae'r codau hyn wedi'u cofnodi o wybodaeth a ddarparwyd gan y llysoedd (ac roeddent yn gywir ar adeg y ddogfen hon).

TROSEDDAU DAMWEINIAU

Cod	Trosedd	Pwyntiau Cosb
AC10	Methu ag aros ar ôl damwain	5-10
AC20	Methu rhoi manylion neu roi gwybod am ddamwain o fewn 24 awr	5-10
AC30	Troseddau damweiniau heb eu diffinio	4-9

GYRRWR ANGHYMHWYSO

Cod	Trosedd	Pwyntiau Cosb
BA10	Gyrru tra byddwch wedi'ch gwahardd drwy orchymyn llys	6
BA30	Ceisio gyrru tra byddwch wedi'ch gwahardd drwy orchymyn llys	6

GYRRU'N DDIFATER

Cod	Trosedd	Pwyntiau Cosb
CD10	Gyrru heb ofal a sylw dyledus	3-9
CD20	Gyrru heb ystyriaeth resymol i ddefnyddwyr ffordd eraill	3-9
CD30	Gyrru heb ofal a sylw dyledus neu heb ystyriaeth resymol i ddefnyddwyr ffordd eraill	3-9
CD40	Achosi marwolaeth drwy yrru diofal pan yn anaddas i yrru oherwydd alcohol	3-11
CD50	Achosi marwolaeth drwy yrru diofal pan yn anaddas i yrru oherwydd cyffuriau	3-11
CD60	Achosi marwolaeth drwy yrru diofal gyda lefel alcohol uwch na'r uchafswm	3-11
CD70	Achosi marwolaeth drwy yrru diofal yna methu â darparu sampl i'w ddadansoddi	3-11
CD71	Achosi marwolaeth drwy yrru diofal yna methu â darparu sampl ar gyfer dadansoddiad cyffuriau	3-11
CD80	Achosi marwolaeth drwy yrru diofal neu anystyriol	3-11
CD90	Achosi marwolaeth drwy yrru: gyrwyr heb drwydded, wedi'u gwahardd neu heb yswiriant	3-11

TROSEDDAU ADEILADU A DEFNYDDIO

Cod	Trosedd	Pwyntiau Cosb
CU10	Defnyddio cerbyd â brecio diffygiol	3
CU20	Achosi neu'n debygol o achosi perygl drwy ddefnyddio cerbydau anaddas neu ddefnyddio cerbydau â rhannau neu ategolion (gan gynnwys brecio, llyw neu deiars) sydd mewn cyflwr peryglus	3
CU30	Defnyddio cerbyd â theiar(s) diffygiol	3
CU40	Defnyddio cerbyd â llyw diffygiol	3
CU50	Achosi neu'n debygol o achosi perygl oherwydd llwyth neu deithwyr	3
CU80	Defnyddio ffôn symudol wrth yrru cerbyd	6

GYRRU PERYGLUS

Cod	Trosedd	Pwyntiau Cosb
DD40	Gyrru Peryglus	3-11
DD60	Dynladdiad neu ddynladdiad beius wrth yrru cerbyd	3-11
DD90	Gyrru Gwyllt	3-9

DIOD A CHYFFURIAU

Cod	Trosedd	Pwyntiau Cosb
DR10	Gyrru neu geisio gyrru gyda lefelau alcohol uwchben yr uchafswm	3-11
DR20	Gyrru neu geisio gyrru pan yn anaddas i yrru oherwydd alcohol	3-11
DR30	Gyrru neu geisio gyrru yna methu â darparu sbesimen i'w ddadansoddi	3-11
DR40	Yn gyfrifol am gerbyd pan fydd lefelau alcohol yn uwch na'r uchafswm	10
DR50	Yn gyfrifol am gerbyd pan yn anaddas i yrru oherwydd alcohol	10
DR60	Methiant i ddarparu sbesimen i'w ddadansoddi mewn amgylchiadau ar wahân i yrru neu geisio gyrru	10
DR61	Methiant i ddarparu sbesimen ar gyfer dadansoddiad cyffuriau mewn amgylchiadau ar wahân i yrru neu geisio gyrru	10
DR70	Methiant i ddarparu sbesimen ar gyfer prawf anadl	4
DR80	Gyrru neu geisio gyrru pan yn anaddas i yrru oherwydd cyffuriau	3-11
DR90	Yn gyfrifol am gerbyd pan yn anaddas i yrru oherwydd cyffuriau	3-11

TROSEDDAU YSWIRIANT

Cod	Trosedd	Pwyntiau Cosb
IN10	Defnyddio cerbyd nad yw wedi'i yswirio yn erbyn risgiau trydydd parti	6-8

TROSEDDAU TRWYDDEDU

Cod	Trosedd	Pwyntiau Cosb
LC20	Gyrru'n groes fel arall i amodau'r drwydded	3-6
LC30	Gyrru ar ôl gwneud datganiad ffug ynglŷn ag addasrwydd wrth wneud cais am drwydded	3-6
LC40	Gyrru cerbyd ar ôl methu â rhoi hysbysiad am anabledd	3-6
LC50	Gyrru ar ôl i drwydded gael ei dirymu neu ei gwrthod ar sail feddygol	3-6

TROSEDDAU AMRYWIOL

Cod	Trosedd	Pwyntiau Cosb
MS10	Gadael cerbyd mewn lleoliad peryglus	3
MS20	Reidio piliwn anghyfreithlon	3
MS30	Troseddau chwarae ar y stryd	2
MS50	Rasio moduron ar y briffordd	3-11
MS60	Troseddau nad ydynt wedi'u cwmpasu gan godau eraill	Fel y bo'n briodol
MS70	Gyrru gyda golwg diffygiol heb ei gywiro	3
MS80	Gwrthod cyflwyno i gael prawf llygaid	3
MS90	Methiant i roi gwybodaeth ar bwy oedd yn gyrru, ac yn y blaen	3

TROSEDDAU AR Y DRAFFORDD

Cod	Trosedd	Pwyntiau Cosb
MW10	Torri Rheoliadau Ffyrdd Arbennig (ac eithrio cyfyngiadau cyflymder)	3

CROESFANNAU CERDDWYR

Cod	Trosedd	Pwyntiau Cosb
PC10	Achos heb ei ddiffinio o dorri Rheoliadau Croesfannau Cerddwyr	3
PC20	Torri Rheoliadau Croesfannau Cerddwyr gyda cherbyd sy'n symud	3
PC30	Torri Rheoliadau Croesfannau Cerddwyr gyda cherbyd llonydd	3

CYFYNGIADAU CYFLYMDER

Cod	Trosedd	Pwyntiau Cosb
SP10	Gyrru'n gyflymach na'r cyfyngiadau cyflymder i gerbydau nwyddau	3-6
SP20	Gyrru'n gyflymach na'r cyfyngiad cyflymder ar gyfer y math o gerbyd (ac eithrio cerbydau nwyddau neu deithwyr)	3
SP30	Gyrru'n gyflymach na'r cyfyngiad cyflymder ar ffordd gyhoeddus	3-6
SP40	Gyrru'n gyflymach na'r cyfyngiad cyflymder i gerbydau teithwyr	3-6
SP50	Gyrru'n gyflymach na'r cyfyngiad cyflymder ar draffordd	3-6

CYFEIRIADAU AC ARWYDDION TRAFFIG

Cod	Trosedd	Pwyntiau Cosb
TS10	Methiant i gydymffurfio ag arwyddion goleuadau traffig	3
TS20	Methiant i gydymffurfio â llinellau gwyn dwbl	3
TS30	Methiant i gydymffurfio ag arwydd 'Aros'	3
TS40	Methiant i gydymffurfio â chyfarwyddyd cwnstabl/warden	3
TS50	Methiant i gydymffurfio ag arwydd traffig (ac eithrio arwyddion aros, arwyddion traffig neu linellau gwyn dwbl)	3-6
TS60	Methiant i gydymffurfio ag arwydd patrôl croesfan ysgol	3
TS70	Methiant heb ei ddiffinio i gydymffurfio ag arwydd cyfeiriadau traffig	3

COD ARBENNIG

Cod	Trosedd	Pwyntiau Cosb
TT99	I ddynodi gwaharddiad o dan weithdrefn pentyrru pwyntiau. Os bydd cyfanswm y pwyntiau cosb yn cyrraedd 12 neu fwy o fewn 3 Blynedd, gellir gwahardd y gyrrwr	3-6

LLADRAD NEU GYMRYD HEB AWDURDOD

Cod	Trosedd	Pwyntiau Cosb
UT50	Achos gwaethygedig o gymryd car	3-11